Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Options Kinsale

**Kinsale Hall**
**Llannerch-y-môr**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 9DX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Options Kinsale

Mae Ysgol Options Kinsale yn rhan o Outcomes First Group, sy’n ceisio darparu gwasanaethau addysg a phreswyl integredig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth (ASA), anawsterau dysgu cymedrol a difrifol, ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae’r ysgol yn cynnig addysg a gofal preswyl ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd ag anghenion cymhleth ac wedi cael diagnosis o ASA. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn lleoli disgyblion yn yr ysgol, ac mae 22 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae mwyafrif y disgyblion yn blant sy’n derbyn gofal ac mae’r mwyafrif yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae lleiafrif o’r disgyblion sy’n mynychu’r ysgol yn ddisgyblion dydd. Mae llawer o ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Tachwedd 2019. Cefnogir y pennaeth gan dîm addysg sy’n cynnwys chwech o athrawon dosbarth, pedwar cynorthwyydd addysgu lefel uwch, ac un deg pump o gynorthwywyr addysgu.

Ymwelodd arolygwyr â’r ysgol ddiwethaf ar gyfer ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2021. Yn yr arolygiad hwn, nid oedd yr ysgol yn bodloni’r Safonau Ysgolion Annibynnol. Cynhaliwyd yr arolygiad craidd diwethaf ym mis Medi 2018.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae Options Kinsale yn darparu amgylchedd croesawgar ac anogol ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus gyda disgyblion, yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am eu hanghenion a'u diddordebau. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus i gynnwys gweithgareddau dysgu perthnasol a difyr. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n dda ar dargedau mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau) a gwybodaeth asesu. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau dysgu. Mae disgyblion yn dechrau datblygu medrau cymdeithasol pwysig trwy ryngweithio â'u cyfoedion. Er enghraifft, yn y caffi cyfathrebu wythnosol, mae disgyblion yn rhyngweithio â staff a'u cyfoedion â hyder cynyddol tra'n dewis o blith amrywiaeth o fyrbrydau.

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cryf yn gwella arfer yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn yr ysgol yn darparu cymorth sicr a gweledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad strategol a rheolaeth yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain. Mae'r dull hwn yn eu galluogi i barhau i ddatblygu tîm effeithiol, ymgysylltiedig, o athrawon a staff cymorth. Fodd bynnag, gwnaed llawer o'r newidiadau hyn yn ddiweddar, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith yn llawn.

### Meysydd i'w datblygu

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau ei dull ar gyfer cefnogi anghenion cyfathrebu disgyblion. Fodd bynnag, mae'r defnydd o iaith arwyddion ar draws yr ysgol yn anghyson.

Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant rheolaidd, â ffocws addas ar gyfer staff, sy'n cysylltu'n briodol â blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw staff yn yr ysgol yn cael cyfleoedd i ddysgu oddi wrth arfer dda pobl eraill.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Ymgorfforі prosesau sicrhau ansawdd i barhau i gefnogi cynllunio a gwelliant strategol effeithiol.

A2 Sicrhau defnydd cyson o iaith arwyddion ar draws yr ysgol.

A3 Cryfhau'r cyfleoedd i staff ddysgu o arfer dda pobl eraill a nodwyd yn fewnol ac yn allanol, fel ei gilydd.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### A1. Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Tachwedd 2021, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn yn bodloni'r argymhelliad hwn.

Mae arweinwyr wedi adolygu'r cwricwlwm a lluniwyd cynlluniau gwaith newydd, sy'n cefnogi cynllunio athrawon i sicrhau bod ffocws priodol ar amcanion dysgu perthnasol. Mae prosesau sicrhau ansawdd cryfach yn cynnwys teithiau dysgu, craffu ar gynllunio ac arsylwadau gwersi. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ffocws priodol ar sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu'n effeithiol, a gweithgareddau dysgu'n addas.

At hynny, mae'r ysgol wedi cryfhau ei gweithdrefnau ar gyfer gosod targedau a monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Cesglir ystod werthfawr o ddata ar berfformiad o fewn olrheinwyr cynnydd, a chaiff ei ddefnyddio'n addas i fonitro cynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae staff addysgu'n dangos dealltwriaeth dda o gyrhaeddiad blaenorol,  tueddfryd ac anghenion disgyblion erbyn hyn. Mae staff addysgu'n sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

O ganlyniad, mae'r ysgol bellach yn cydymffurfio â Rheoliad 1(3) Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

### A2. Sicrhau bod gwaith y tîm clinigol yn llywio'r cymorth y mae staff yn ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn well fel bod pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n fwy cyson â dysgu

Ers yr ymweliad diwethaf, ehangwyd y tîm clinigol, ac erbyn hyn mae'n cynnig therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol, therapi lles, seicotherapi a therapi celf. Yn ychwanegol, ceir cynorthwyydd therapi. Mae'r tîm clinigol yn cyflwyno ystod o hyfforddiant gwerth chweil i'r tîm addysg i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion disgyblion yn well, er enghraifft hyfforddiant diweddar ar ddull cyfathrebu cyflawn.

Mae'r tîm clinigol wedi datblygu ystod o weithgareddau buddiol ar gyfer disgyblion, er enghraifft y 'caffi cyfathrebu' wythnosol. Mae'r newidiadau hyn yn newydd ac mae'n rhy gynnar i werthuso eu heffaith yn llawn.

Mae staff addysgol wedi gwella'u defnydd o wybodaeth gan y tîm clinigol i lywio'r cynllunio. O ganlyniad, adeg yr ymweliad monitro, ymgysylltodd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol â dysgu.

### A3. Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu cyd-destun penodol yr ysgol ac yn cyfeirio'n addas at ganllawiau Llywodraeth Cymru

At ei gilydd, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau priodol i bolisïau i sicrhau eu bod yn cyfeirio'n briodol at ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Llywodraeth

Cymru. Er bod llawer o bolisïau yn parhau'n gorfforaethol o ran eu natur, maent yn adlewyrchu'r gweithdrefnau lleol a chyd-destun penodol yr ysgol a'i disgyblion yn briodol.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/y cyhoeddiad penodol:  27/03/2023